

# At y Golygydd

Y Gadlas  
14 Llys Gwyn  
Caernarfon  
Gwynedd

Annwyl Olygydd,

Diolch i Gwilym Jones o Dudweiliog, drwy ei sylwadau ymyl-y-ddalen fel petai, am fy ysgogi i ail-ymafael yn hanes fy nheulu, yn arbennig hanes y llong *Robert Williams*. Teimlaf fod yn rhaid i mi, o'r wybodaeth sydd gen i ar hyn o bryd, gywiro rhai ffeithiau.

Mae Gwilym Jones yn gywir i ddweud mai mab y Gegin Fawr oedd Robert Williams. Bedyddiwyd ef ar 9 Ionawr 1794, son of *William Bevan of Village by Elizabeth*. Erbyn bedydd John ei frawd 20 Ebrill 1798 roedd y teulu wedi symud i'r Gegin Fawr (CP Aberdaron, LLGC). Ar 16 Awst 1812 priododd â Jane Nathaniel o Enlli (AE/CP Aberdaron LLGC) a bu'n byw yno weddill ei oes. Yng nghyfrifiadau 1851 disgrifir ef fel *Farmer of 16 acres (also Calvinistic Minister)*, yn 1861 fel *Calvinistic Local Preacher*, ac ar dystysgrif priodas ei ferch Anne, fel *Farmer*. Ganwyd chwech o blant – William (does dim cofnod ond am ei fedydd ac nid oes sôn amdano yn ewyllys Robert Williams), Nathanael, Ellen, Elizabeth, Jane ac Anne (ar ei hôl hi y cefais i fy enw – ond heb yr 'e' ar y gynffon!). Anne oedd yr ieuengaf ac ar 22 Chwefror 1861 (Tystysgrif priodas), priododd â Rees Griffith, mab Bryn Mawr Anelg, a oedd yn gapten llong. Mab Griffith (saer coed) a Ruth Richard oedd Rees ac yn frawd i Richard Griffith, Cefn Ynysoedd, Llanfaglan, perchen y llong *Sybil Wynn*. Ganwyd tri o blant – Ruth (1864) sef nain Gwilym Henry, John Rees ac Evie, Bryn Ffynnon, Rhosfawr; William (1866) a briododd Jane Jones, Gladstone, Aberdaron (Abersoch wedi hynny) a Jane (1870), nain Walter fy mrawd, a minnau. [Fel mae'n digwydd, ganwyd Dyfrig, ein mab ieuengaf ni, gan mlynedd i'r diwrnod ar ôl William.]

Yn wahanol i'r hyn ddywed Gwilym Jones, ymhen tair blynedd wedi iddynt briodi, a hynny ym mis Chwefror 1864, yr adeiladwyd y llong *Robert Williams*, gan Evan Ellis, Porthdinllaen. Ni fu Robert Williams erioed yn berchen arni. Yn ôl Cofrestrau Lloyds, Griffiths & Co oedd y perchenogion. Yr & Co oedd Robert Evans, mab i chwaer Anne. Er yn ifanc gwnaethai ei gartref gyda'i daid a'i nain ar Enlli. Allan o 64 siâr roedd Rees yn berchen ar 60 a Robert ar 4. Efallai i Robert Williams roi cyfraniad ariannol i Rees neu Robert. Meistr y llong oedd Rees Griffiths. Y disgrifiad ohoni yw:

**Master: R. Griffiths**

*Owners: Griffiths & Co.*

*Port: Caernarvon*

*Port of Survey and Destined Voyage: Portmadoc Coaster.*

*Mae David Thomas yn ei lyfr Hen Longau Sir Gaernarfon yn ei disgrifio fel Sgwner (2FF), 64 tunnell, Del = Bwst Dyn. Collwyd hi yn Afon Hafren yn 1883.*

Mae cofnodion o deithiau y *Robert Williams* ar gael yn Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon. Ei siwrnai gyntaf yn ôl pob golwg oedd rhwng 10 Mawrth a 12 Gorffennaf 1864. Cychwynnodd o Gaernarfon i Lundain, Lerpwl,

Porthmadog, Hamburgh a Yarmouth. Dyma restr o'r criw ymunodd â'r llong yng Nghaernarfon:

Owen Owens, genedigol o Nefyn, Mate;  
William Jones, genedigol o Nefyn, Seaman;  
Thomas Williams, genedigol o Enlli, Seaman, ei daith gyntaf;  
Evan Griffith, genedigol o Aberdaron, Boy, ei daith gyntaf.

Ym Mhorthmadog ar 12 Mai 1864 gadawodd Owen Owens a William Jones – *Left Discharged*. Yn eu lle, ar 3 Gorffennaf daeth:

John Roberts, genedigol o Gaernarfon, Mate;  
Robert Jones, genedigol o Gaernarfon, Seaman.

Ar fanylion y daith gyntaf nodir mai'r llong olaf y bu Rees arni oedd y *Moses Parry* a'i gadael ar 10 Ionawr 1862. Mae'n debyg, felly, iddo fod ar y tir tra'r adeiladwyd y *Robert Williams* yn 1864.

Yn ôl o Yarmouth gan alw yn Newcastle, Dulyn ac i Borthmadog. Ail-gychwyn o Borthmadog am Bremen, Newcastle, Padstow, Porthmadog, Llundain ac yn ôl i Borthmadog.

Ymhlith y porthladdoedd y byddai'n galw ynddynt roedd Gloucester, Grimsby, Plymouth, Dartmouth, Shoreham, Southampton, Bridgewater, Poole a Youghal ger Cork yn Iwerddon (yn 1492 Youghal oedd yr ail borthladd mwyaf ar ôl Bryste, yn cael ei ddilyn gan Ddilyn a thua'r chweched safle oedd Lerpwl a Llundain). Yn y papurau newydd yn Llyfrgell Poole gwelais ei bod yn cario llechi yno o Borthmadog a mynd â chlai oddi yno i Runcorn. Dro arall cario 'balast' o Southampton i Poole ac yna glai yn ôl i Runcorn. Bu sawl taith o Borthmadog i Bremen Brake yn ystod y blynyddoedd cynnar. Buasai'n ddiddorol gwybod beth oedd ei llwyth – llechi efallai?

*Mewn Agreement for Home Trade Ship* wedi ei ddyddio 31 Mai 1867 ar gyfer y daith o Borthmadog i Bremen ac yn ôl i'r DU nodir *Scale of Provisions during voyage: Sufficient without waste*. Dyma fanylion cyflog mis i'r criw:

Morris Williams (32 oed) Mate £5.10.0

Richard Jones (18 oed) OS £2.12.0

Thomas Jones (16 oed) OS £1.16.0

Bu Robert Williams farw ar 4 Ebrill 1975, fel y dywed Gwilym Jones. Ar 21 Ebrill 1975 gwerthwyd y llong i John Davies o Borthmadog a chafodd ef forgais o £250 gyda llogau o 6 y cant i'w phrynu. Ar 29 Hydref 1875 bu farw John Davies yn ddi-ewyllys a rhoddwyd Llythyr Gweinyddu i Richard Davies (teiliwr) ar 18 Ionawr 1876. Ar 17 Mehefin 1876 gwerthwyd y llong i William Evans, Borth, Porthmadog. Cafodd ef forgais o £350 ar yr un telerau â John Davies o'r un ffynhonnell. William Evans fu'r perchennog a'r meistr hyd ddiwedd ei hoes. Digwyddodd hyn ar daith o Abertawe i Bwllheli. Dyma'r manylion yn y Gofrestr: *Vessel stranded and totally lost on Oxwich Point, Bristol Channel, 7 January 1883. Certificate lost with vessel. Register closed 29 January 1883. Thomas Parry of Mount Pleasant Portmadoc appointed to whom the management of the ship is entrusted by and on behalf of the owner*. Yn y manylion o'r daith

mae ychwanegiad: *Crew paid off at Milford 8 January 1883*. Diolch i Mr. David Jenkins o'r Amgueddfa Môr a Diwydiant (trwy Capten Gwyn Pari-Huws) am yr wybodaeth mai cario llwyth o lo o Abertawe i Abersoch yr oedd pan y'i chollwyd, a hynny ar dywydd tawel.

Gwelir, felly, na werthwyd y llong i gwmni o wlad Groeg fel yr honna Gwilym Jones a buasai wedi bod yn amhosibl i Robert Williams (pe bai yn berchen) allu teithio i unman pan y'i gwerthwyd gan ei fod wedi marw rai wythnos ynghynt! Ond credaf i Rees deithio i'r gwledydd y sonia Mr. Jones amdanynt – maes diddorol arall i durio iddo!

Roedd Rees yn 74 mlwydd oed pan fu farw ar 24 Mawrth 1900, ac felly yn rhyw 50 mlwydd oed pan werthwyd y llong ac yn ddigon ifanc i gymryd gofal o *yacht* yr Arglwydd Newborough am rai blynyddoedd.

Yn gywir,  
NAN PARRI

## Dryllio'r Delwau

(Parhad o dudalen 9)

chyfrododdu o'r Pwnc Newydd: 'y gallai nad oeddynt hwy yn ei gweld, ond ei fod ef yn ei gweld hi felly'. Gofynnodd gwestiynau iddo ac atebodd Morris Roberts yn lled dda. Yna tywalltodd John Elias ei ddifuriaeth yn genlli ar Morris Roberts a bu dadlau a thrafod poeth o ganlyniad. Yna John Elias yn codi i fyny a gohirio ei brawf i Sasiwn Medi Caernarfon a mynegi nad oedd Morris Roberts i fynd allan i bregethu o'i sir hyd hynny.

**Cysur John Jones**

Yna Richard Jones o'r Wern yn dymuno cael gwybod erbyn Sasiwn Caernarfon o ba le yr oedd gan rai pobl awdurdod i gyhoeddi eu brodyr yn gyfeiliornwyr mewn Sasiwn heb fod y personau hynny yno, ac heb ddweud gair wrthynt yn bersonol yng nghylch hynny, na gair wrth gyfarfod misol eu sir? Dywedodd na feddai ef y fath awdurdod ac nad oedd arno ei eisiau ond ei fod gan rai, a'u bod yn ei arfer pan fyntent, er llawer o ofid i bersonau ac i'r achos mawr yn eu plith. Ac os oeddynt yn meddwl mynd ymlaen felly y byddai yn well i bob un ffoi i'w babell, ac aros o gwmpas ei gartref.

Yna trodd Richard Jones at Morris Roberts gan ddweud wrtho am beidio â digalonni a bod sir Feirionnydd yn ddigon o le i'w drafaelio hyd Sasiwn Caernarfon. Ac felly y terfynodd yn y Bala.

Gyda bod Morris Roberts allan pwy a ddaeth i'w gysuro ond John Jones, Talysarn, ac meddai am John Elias: 'Mae'n well gennyf fi gyflwr Morris o lawer na dy gyflwr di, cadwdd ef gydywybod glir, ond wnest ti mo hynny yn Llanidloes.'

Ac ychwanegodd, 'Diolch am "yr hen Wern" beth bynnag neu buasai dy fenydd di ar hyd y cerrig.'

Pan edrychai John Elias rhwng ei fysedd dywedodd fod Morris Roberts wedi nyddu edau fain ac mai peth rhyfedd i fwngler fel y fo allu gwneud hynny. Cododd John Elias yr helynt hon ar ei droed ei hun; yng ngrym ei awdurdod ei hun, fel yr arferai wneud, heb na chynnig na gofynnol i'w syniad y bobl mewn dim.

(I'w barhau)